# Dogfen Asesiad Effaith Integredig

## (yn cynnwys Cydraddoldeb, Cenedlaethau'r Dyfodol, yr Iaith Gymraeg a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol)

| | |
|---|---|
| **Enw'r Swyddog:** Will Mclean<br><br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** willmclean@monmouthshire.gov.uk | **Rhowch ddisgrifiad byr o nodau'r cynnig**<br><br>Sefydlu ysgol gynradd egin 3-11 oed cyfrwng Cymraeg yn Nhrefynwy |
| **Enw'r Maes Gwasanaeth: Uned Mynediad Plant a Phobl Ifanc** | **Dyddiad: Ionawr 2023** |

1. **A fydd eich cynigion yn effeithio ar unrhyw bobl neu grwpiau o bobl gyda nodweddion gwarchodedig?** Esboniwch isod yr effaith, y dystiolaeth yr ydych wedi ei defnyddio ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwch.

| Nodweddion Gwarchodedig | Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol sydd gan eich ysgol ar y nodwedd warchodedig | Disgrifiwch unrhyw effeithiau negyddol sydd gan eich ysgol ar y nodwedd warchodedig | Beth gafodd/gaiff ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Oed | Bydd yr ysgol yn darparu addysg Gymraeg ar gyfer plant 3-11 sy'n byw yn Nhrefynwy. Ar hyn o bryd mae disgyblion yn gorfod teitho ymhell i'r Fenni. | Nid oes addysg Gymraeg ar gyfer plant 12-19 oed ar gael yn Sir Fynwy hyd yma. | Mae Cyngor Sir Fynwy yn cydweithio gydag awdurdodau cyfagos yn Ne Ddwyrain Cymru wrth edrych ar yr opsiynau posibl ar draws y rhanbarth. |
| Anabledd | Dim effaith | Dim effaith | Dim effaith |
| Ailbennu rhywedd | Dim effaith | Dim effaith | Dim effaith |

| Nodweddion Gwarchodedig | Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol sydd gan eich ysgol ar y nodwedd warchodedig | Disgrifiwch unrhyw effeithiau negyddol sydd gan eich ysgol ar y nodwedd warchodedig | Beth gafodd/gaiff ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Priodas neu bartneriaeth sifil | Dim effaith | Dim effaith | Dim effaith |
| Beichiogrwydd neu Famolaeth | Dim effaith | Dim effaith | Dim effaith |
| Hil | Dim effaith | Dim effaith | Dim effaith |
| Crefydd neu Gredo | Dim effaith | Dim effaith | Dim effaith |
| Rhyw | Bydd y ddarpariaeth yn gydaddysgol yn cynnwys bechgyn a merched. | Dim effaith | Dim effaith |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Dim effaith | Dim effaith | Dim effaith |

## 2. Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a Chyfiawnder Cymdeithasol

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi ystyriaeth ddyladwy i'r angen i ostwng anghydraddoldeb mewn deilliannau sy'n ganlyniad anfantais economaidd-gymdeithasol wrth gymryd penderfyniadau allweddol. Mae'r ddyletswydd hon yn alinio gyda'n hymrwymiad fel awdurdod i Gyfiawnder Cymdeithasol.

| | Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol sydd gan eich cynnig ynghylch pobl yn dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol | Disgrifiwch unrhyw effeithiau negyddol sydd gan eich cynnig yng nghyswllt pobl yn dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol | Beth gafodd/gaiff ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| **Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a Chyfiawnder Cymdeithasol** | Bydd sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy. Mae llawer o fanteision i fod yn ddwyieithog, er enghraifft, oherwydd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'r gallu i siarad Cymraeg naill yn sgil hanfodol neu ddymunol ar gyfer nifer cynyddol o swyddi tebyg i iechyd, addysg, hamdden, gofal plant a manwerthu. Mae hyn yn neilltuol o wir am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lle mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub a'r heddlu ac yn y blaen i ddarparu eu gwasanaethau i'r un safonau yn Gymraeg a Saesneg. Mae ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Sir Fynwy yn golygu y bydd mwy o ddysgwyr yn cael cyfle i ddod yn ddwyieithog gan felly roi mantais wirioneddol iddynt wrth sicrhau cyfleoedd cyflogaeth. | Cafodd amser, pellter a chost teithio eu dynodi fel her i rai dysgwyr, yn neilltuol y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Fel canlyniad, nid yw addysg Gymraeg yn opsiwn wirioneddol i rai dysgwyr. Nid yw dysgwyr na ddechreuodd addysg Gymraeg ar y cam Meithrin neu Dderbyn wedi medru ymuno mewn blynyddoedd diweddarach.<br><br>Yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad, roedd y Cyngor yn cydnabod fod teuluoedd sydd â brodyr/chwiorydd hŷn yn Ysgol Gymraeg y Fenni o bosib am weld y ddau blentyn yn mynychu'r ysgol ac yn derbyn cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer yr holl blant. | Mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu adolygu'r Polisi Cludiant Ysgol i sicrhau ei fod yn rhoi cyfle gwirioneddol i ddysgwyr gael addysg Gymraeg. Bydd yr ysgol gynradd ychwanegol yn Nhrefynwy a'r datblygiad yn edrych ar ddarpariaeth uwchradd mewn partneriaeth gyda Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Phowys yn creu potensial. Bydd hyn yn rhoi mwy o ddewis i rieni sy'n dymuno darparu addysg Gymraeg i'w plant. Mae datblygu darpariaeth trochi o fewn Sir Fynwy yn golygu y gall pob dysgwr, beth bynnag eu hoed neu gefndir ieithyddol, fanteisio o addysg Gymraeg.<br><br>Bydd y Cyngor yn ystyried hyn ymhellach fel rhan o'r broses ymgynghori. |

## 3. Gwneud Polisi a'r Gymraeg.

| Sut mae'r cynnig yn effeithio ar agweddau dilynol o ran Safonau'r Gymraeg y Cyngor: | Disgrifiwch effeithiau cadarnhaol y cynnig | Disgrifiwch effeithiau negyddol y cynnig | Beth gafodd/gaiff ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol |
|---|---|---|---|
| **Gwneud Polisi**<br><br>Effeithiau ar y defnydd o'r Gymraeg,<br><br>Hyrwyddo'r Gymraeg<br><br>Trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol | Os cytunir ar y cynnig, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gan y byddwn yn creu ysgol gynradd Gymraeg yn Nhrefynwy. Bydd hyn yn galluogi teuluoedd i gael mynediad i addysg Gymraeg yn nes i adre'. Byddant hefyd yn cael mynediad i feithrinfa a gofal plant cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnig yn hwb sylweddol i'r cynnig Cymraeg yn Nhrefynwy, mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol gydag uchelgais y Cyngor i gefnogi strategaeth Cymraeg 2050 o 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg a hefyd y targedau a nodir yn Strategaeth 5 Mlynedd 22-27 y Gymraeg a hefyd y targedau a nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 22-32 y Cyngor. | Gan y bydd yr ysgol ar yr un safle ag ysgol cyfrwng Saesneg, mae risg na chaiff disgyblion eu trochi'n llawn yn y Gymraeg.<br><br>Nid oes unrhyw ddarpariaeth uwchradd Cymraeg yn Sir Fynwy ar hyn o bryd, felly bydd taith bell yn dal i fod i Ysgol Gyfun Gwynllyw yn Nhorfaen. | Bydd Penaethiaid y ddwy ysgol yn cydweithio i sicrhau y caiff mynediad i rannau a gaiff eu rhannu eu rheoli'n effeithiol.<br><br>Bydd Cyngor Sir Fynwy yn parhau i ddatblygu'r trafodaethau ac ymgysylltu gyda Chyngor Sir Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i sicrhau darpariaeth uwchradd Cymraeg newydd yn ardal gogledd Gwent/de Powys i liniaru effaith negyddol posibl y cynnig. Rhoddir gwybodaeth fanwl i Fforwm Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a chaiff ei gynnwys mewn trafodaethau ar hyn. Bydd y Cyngor yn parhau ei ddialog barhaus gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen am y ddarpariaeth yn Ysgol Gyfun Gwynllyw fel bod addysg uwchradd Gymraeg yn yr Ysgol yn parhau yn ddewis deniadol i bobl sy'n dymuno derbyn profiad addysg Gymraeg llawn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithredol**<br><br>Recriwtio a hyfforddi'r gweithlu | Bydd sefydlu ysgol newydd yn ysgogi'r angen am nifer fwy o athrawon a staff cymorth cyfrwng Cymraeg yn ardal Trefynwy dros gyfnod o amser. Bydd hyn yn creu cyfleoedd ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn Nhrefynwy a thu allan yr ardal i fedru defnyddio eu sgiliau yn y Gymraeg yn yr amgylchedd gwaith. Bydd recriwtio yn haws a gall fod yn raddol. | Mae risg na fedrwn sicrhau nifer ddigonol o athrawon/staff sy'n siarad Cymraeg i gyflawni gofynion yr ysgol newydd. | Er mwyn lliniaru'r risg yma byddwn yn cydweithio gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) a'r sefydliadau addysg uwch lleol i helpu hwyluso nifer fwy o athrawon cyfrwng Cymraeg. Byddwn hefyd yn defnyddio pob dull recriwtio sydd ar gael i ni i hybu'r broses recriwtio – cyfryngau cymdeithasol (Twitter, Facebook, YouTube), gwefan y Cyngor, safleoedd recriwtio Cymraeg, Linkedin ac yn y blaen. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y Fforwm Cymraeg mewn Addysg i'n cynorthwyo yn y broses yn defnyddio eu harbenigedd ac ystod cysylltiadau. |
| **Darparu gwasanaeth**<br><br>Defnyddio'r Gymraeg mewn darparu gwasanaeth<br><br>Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg | Os cytunir ar y ddogfen ymgynghori, caiff ei dosbarthu i randdeiliaid yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br><br>Bydd yr holl ohebiaeth a chyfathrebu yn cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol ynghylch y cynnig hwn yn ddwyieithog fel sy'n ofynnol gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. | Mae risg na fedrwn recriwtio nifer ddigonol o staff arbenigol awdurdod lleol sy'n medru'r Gymraeg i ddarparu pob gwasanaeth yn Gymraeg. | Er mwyn lliniaru'r risg hwn byddwn yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a sefydliadau addysg uwch lleol i helpu hwyluso nifer fwy o staff cyfrwng Cymraeg. Byddwn hefyd yn defnyddio'r holl ddulliau recriwtio sydd ar gael i ni i gynorthwyo'r broses recriwtio – cyfryngau cymdeithasol (Twitter, Facebook, YouTube), gwefan y cyngor, safleoedd recriwtio Cymraeg, LinkedIn ac yn y blaen. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y Fforwm Cymraeg mewn Addysg i'n cynorthwyo yn y broses yn defnyddio eu harbenigedd ac ystod cysylltiadau. |

**4. A yw'r cynnig yn cyflawni unrhyw un o'r nodau llesiant isod?** Esboniwch yr effaith (cadarnhaol a negyddol) a ddisgwyliwch, ynghyd ag awgrymiadau am sut i liniaru effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at y nod. Nid oes angen rhoi rhywbeth ym mhob blwch os nad yw'n berthnasol.

| **Nod Llesiant** | **A yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod hon? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol a negyddol.** | **Pa gamau gafodd/gaiff eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at agweddau cadarnhaol?** |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Mae defnydd effeithiol o adnoddau, pobl fedrus ac addysgedig, yn cynhyrchu cyfoeth a darparu swyddi | Mae'r gallu i siarad Cymraeg naill ai'n sgil hanfodol neu ddymunol ar gyfer nifer cynyddol o swyddi tebyg i iechyd, addysg, hamdden, gofal plant, manwerthu a gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn golygu y bydd gan fwy o ddysgwyr gyfleoedd cyflogaeth uwch fel canlyniad i fod yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Bydd mwy o gyfleoedd swyddi o fewn yr ysgol newydd arfaethedig. | Dim effaith |
| **Cymru gydnerth**<br>Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n cefnogi cydnerthedd ac a all addasu i newid (e.e. newid hinsawdd) | Bydd sefydlu'r ysgol newydd yn gostwng y gofyniad i gludo plant o ardal Trefynwy i'r ddarpariaeth Gymraeg yn y Fenni. | Dim effaith |
| **Cymru iachach**<br>Llesiant corfforol a meddyliol pobl yn cael ei uchafu ac effeithiau iechyd yn cael eu deall | Byddai'r cynnig hwn yn arwain at i fwy o blant fedru cael mynediad i ddarpariaeth Gymraeg yn eu cymuned a medru cerdded i'r ysgol yn hytrach na chael eu cludo. | Dim effaith |
| **Cymru o gymunedau cydlynus**<br>Cymunedau yn ddeniadol, hyfyw, diogel a gyda chysylltiadau da | Gall rhieni sy'n dymuno cael addysg Gymraeg i'w plant yn ardal Trefynwy gael mynediad i ddarpariaeth o fewn eu cymuned. Bydd hyn yn cynyddu'r cyfleoedd i fwy o ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol mewn lleoliadau cymdeithasol ac amrywiaeth o gyd-destunau dilys. | Dim effaith |

| Nod Llesiant | A yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod hon? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol a negyddol. | Pa gamau gafodd/gaiff eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at agweddau cadarnhaol? |
|---|---|---|
| **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang** Rhoi ystyriaeth i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol | Dim effaith | Dim effaith |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** Diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu. Pobl yn cael eu hannog i wneud chwaraeon, celfyddydau a hamdden. | Os cytunir ar y cynnig, caiff strategaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg ei gefnogi gan y cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Dim effaith |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** Gall pobl gyflawni eu potensial beth bynnag eu cefndir neu amgylchiadau. | Mae ehangu addysg Gymraeg yn Nhrefynwy yn golygu y bydd mwy o ddysgwyr yn cael cyfle i ddod yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg a chynyddu eu cyfleoedd o sicrhau cyflogaeth fel oedolion a chyflawni eu potensial. | |

**5. Sut mae eich cynnig wedi sefydlu a rhoi blaenoriaeth i egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y datblygiad?**

| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi cyflawni'r egwyddor yma? Os do, disgrifiwch sut. Os na, esboniwch pam. | A oes unrhyw gamau ychwanegol i'w cymryd y liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol. |
|---|---|---|
| Cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol | Os gall dysgwyr fynychu ysgol gynradd Gymraeg yn eu cymuned leol neu yn agos o ran amser teithiol, maent yn fwy tebygol o ddewis a pharhau eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. | Dim effaith |

| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi cyflawni'r egwyddor yma? Os do, disgrifiwch sut. Os na, esboniwch pam. | A oes unrhyw gamau ychwanegol i'w cymryd y liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol. |
|---|---|---|
| Cydweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion | Caiff y cynnig ei gefnogi gan y Fforwm Cymraeg mewn Addysg. Cynrychiolir y fforwm gan nifer o bartneriaid allweddol yr ymgynghorir â nhw ac sy'n hollbwysig wrth gyflawni targedau ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. | Dim effaith |
| Cynnwys rhai gyda diddordeb a gofyn am eu sylwadau | Bydd yr ysgol newydd yn gwasanaethu holl glwstwr Trefynwy ac ymgynghorir â phawb y mae'r cynnig yn effeithio arnynt fel rhan o'r broses ymgynghori statudol. Cafodd aelodau'r Fforwm hefyd eu cynnwys yn y cynnig. | Dim effaith |
| Rhoi adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu | Ar hyn o bryd mae teuluoedd sydd eisiau derbyn addysg Gymraeg yn Sir Fynwy yn gorfod teithio i'r Fenni. Gall hyn fod yn gostwng y galw ac yn arwain at rieni yn gwrthod dewis addysg Gymraeg. Bydd cael ysgol Gymraeg leol yn datrys y mater hwn a hefyd yn ysgogi galw. | Dim effaith |
| Ystyried effaith ar holl nodau llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill | Bydd cael darpariaeth Gymraeg ar gael yn y gymuned leol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant disgyblion sy'n gorfod teithio i'r Fenni i gael darpariaeth ar hyn o bryd. Oherwydd y ddibyniaeth ar gludiant ysgol, gall hyn olygu na all disgyblion fynd i glybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau eraill sydd ar gael ar ôl ysgol. | Dim effaith |

6. **Mae'r Cyngor wedi cytuno ar yr angen i ystyried yr effaith a gaiff ei benderfyniadau ar y cyfrifoldebau pwysig dilynol: Rhianta Corfforaethol a Diogelu. A yw eich cynigion yn mynd i effeithio ar unrhyw un o'r cyfrifoldebau hyn?**

| | **Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol sydd gan eich cynnig** | **Disgrifiwch unrhyw effeithiau negyddol sydd gan eich cynnig** | **Beth fyddwch/wnaethoch chi i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at yr effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|
| Diogelu | Bydd polisïau a gweithdrefnau Diogelu priodol yn eu lle yn yr ysgol newydd | Dim effaith | Dim effaith |
| Rhianta Corfforaethol | Nid yw'n berthnasol | Nid yw'n berthnasol | Nid yw'n berthnasol |

7. **Pa dystiolaeth a data sydd wedi llywio datblygiad eich cynnig?**

- Arolwg cyflwr ac addasrwydd Faithful & Gould yn cynnwys gofynion cynnal a chadw ôl-groniad cynnal a chadw a ddynodwyd (mae dogfen y Cynnig yn sôn am fesurau cynnal a chadw ôl-groniad lleol)
- Data gan iechyd ar nifer "genedigaethau byw" o fewn y Sir.
- Data gan Cynllunio ar nifer y datblygiadau tai sydd ar y gweill ar gyfer y blynyddoedd nesaf.
- Nifer bresennol ar gofrestri ysgol a dadansoddiad tueddiadau.
- Lleoedd gwag – data gan dîm Mynediad Cyngor Sir Fynwy.
- Cynllunio data lleoedd ysgol – tîm Mynediad Cyngor Sir Fynwy

8. **CRYNODEB: Fel canlyniad i lenwi'r ffurflen hon, beth yw prif effeithiau cadarnhaol a negyddol eich cynnig, sut maent wedi llywio/newid datblygiad y cynnig hyd yma a beth fyddwch chi'n ei wneud yn y dyfodol?**

Prif fanteision y cynnig yw ein bod drwy greu darpariaeth Gymraeg yn Nhrefynwy yn galluogi'r gymuned leol i gael mynediad i addysg Gymraeg heb orfod teithio ymhell i'r Fenni. Bydd hyn yn ei dro yn cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg ar draws Sir Fynwy ac felly'n cyrraedd y targedau o fewn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Byddwn hefyd yn cyfrannu at strategaeth Llywodraeth Cymru o 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

9. **CAMAU GWEITHREDU: A oes unrhyw gamau gweithredu pellach y byddwch yn eu cymryd fel canlyniad i lenwi'r ffurflen hon? Rhowch fanylion isod os yn berthnasol.**

| Beth fyddwch chi yn ei wneud | Pryd fyddwch yn gwneud hynny? | Pwy sy'n gyfrifol? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

10. **RHEOLI FERSIWN: Dylid defnyddio'r Gwerthusiad Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol ar y cam cynharaf, megis yn anffurfiol o fewn eich gwasanaeth, ac wedyn ei ddatblygu ymhellach ledled y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses i ddangos sut y gwnaethoch ystyried a chynnwys ystyriaethau cydraddoldeb a chenedlaethau'r dyfodol lle bynnag sy'n bosibl.**

| Fersiwn Rhif | Cyfnod gwneud penderfyniadau | Dyddiad yr ystyriwyd | Disgrifiad byr o unrhyw ddiwygiadau a wnaed yn dilyn ystyriaeth |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Cabinet | 18/01/2023 | Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau. |
| 2.0 | Cabinet | 07/06/2023 | |
| | | | |